Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Eglwysbach**
**Ysgol Eglwysbach**
**Eglwysbach**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5UD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Eglwysbach yn grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg sy'n cyfarfod yn neuadd yr ysgol. Pentref gwledig bychan yw Eglwysbach tua 4 milltir i'r gogledd o Lanrwst yng Ngogledd Cymru.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i ddarparu ar gyfer uchafswm o 15 o blant mewn unrhyw sesiwn. Ar hyn o bryd mae 22 o blant ar y gofrestr, gan gynnwys 7 plentyn tair oed sy'n cael eu hariannu i dderbyn addysg blynyddoedd cynnar. Yn ystod yr arolygiad, dim ond 5 o blant tair oed oedd yn bresennol. Mae`r lleoliad yn adrodd bod hanner y plant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a 30% arall o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw'r plant eraill o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Ychydig iawn o blant sydd wedi cael eu nodi ag anghenion dysgu arbennig. Mae'r lleoliad yn cyfarfod am 4 bore `r wythnos (nid dydd Llun) o 9y.b. tan 11.30y.b. yn ystod y tymor.

Mae dau aelod o staff llawn amser sy'n rhannu'r rôl arweinyddiaeth ac aelod arall o staff mewn rôl gefnogol. Mae gan y staff gymwysterau a phrofiad addas.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2013 a gan Estyn yn 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r plant yn hapus ac yn teimlo`n ddiogel;
- mae`r plant yn setlo`n gyflym ac yn cymryd rhan weithredol yn fuan yn y gweithgaredau sydd wedi gosod ar eu cyfer;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau da at eu gwaith;
- mae`r profiadau dysgu sydd wedi`u cynllunio yn eang ac yn ysgogi`r plant yn llwyddiannus;
- mae`r addysgu`n dda ac mae`r ymarferwyr yn cefnogi`r plant yn dda yn eu gweithgareddau;
- mae`r ddarpariaeth ar gyfer gofal a chymorth y plant yn dda ac yn sicrhau eu lles;
- mae`r lleoliad wedi`i integreiddio`n dda i fywyd yr ysgol gynradd ac mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddiad y plant.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- mae`r arweinyddion yn rhoi ffocws clir ar ddarparu`r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant;
- mae`r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu wedi`u sefydlu`n dda ac wedi arwain at welliannau;
- mae gan y lleoliad hanes da o wella a chanllawiau clir ar gyfer gwella;
- mae`r staff wedi mynychu cyrsiau`r awdurdod lleol gyda`r canlyniad o wella darpariaeth ar gyfer y plant;
- mae`r lleoliad yn elwa`n sylweddol o`r gefnogaeth a`r cymorth gan swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 ganolbwyntio ar nodi datblygiad medrau`r plant, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.

A2 defnyddio canlyniadau`r asesu i gynllunio`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus. Mae`r amcanion dysgu yn canolbwyntio `n dda ar annog plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae pwyslais priodol ar blant yn dysgu drwy brofiadau uniongyrchol y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r holl blant yn frwdfrydig ac yn awyddus i roi cynnig ar syniadau newydd.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant gyda phwyslais da ar chwarae. Mae cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r holl blant yn mwynhau gwrando ar storïau; mae ganddynt sgiliau gwrando da ac maen nhw`n awyddus i ateb cwestiynau yn seiliedig ar y stori. Mae cyfleoedd da wedi`u cynllunio i`r plant edrych ar lyfrau. Mae`r plant yn cymryd cyfleoedd o'r fath gyda brwdfrydedd gan ddewis eu hoff storïau a thrin llyfrau yn gywir. Mae cyfleoedd ysgrifennu, fel defnyddio sialc wrth chwarae y tu allan yn dangos bod llawer o blant yn medru ffurfio llythrennau adnabyddus, fel sydd yn eu henwau.

Mae cyfleoedd da yn cael eu darparu i blant gyfrif ac i adnabod rhif. Yn ystod eu chwarae tu allan, roedd y plant wedi cyfateb rhifau 1-9 gyda gradd dda o gywirdeb. Mae cynllunio ar gyfer medrau TGCh yn cynnwys defnydd o lygoden y cyfrifiadur i ddod o hyd i eiconau ar y sgrîn a`u cyfateb.

Mae gweithgareddau rheolaidd wedi`u cynllunio i ddatblygu sgiliau creadigol a chorfforol y plant a'u gwybodaeth am y byd o'u cwmpas. Mewn cyfnod cyn yr arolygiad, roedd y plant wedi gweld wyau pili pala yn datblygu, yn troi`n chwiler a`r oedolion yn cael eu rhyddhau, gan werthfawrogi y cysyniad o gylch bywyd fel canlyniad.

Mae`r cynllunio hefyd yn cynnwys gweithgareddau â ffocws sy`n cael eu harwain gan oedolion sydd wedi'u cynllunio i ymestyn dysgu'r plant. Mae`r cyfleoedd dysgu sydd wedi`u cynllunio yn darparu anogaeth ar gyfer datblygiad personol y plant gan gynnwys eu gallu i ddysgu`n annibynnol er mwyn datblygu eu hunan-hyder ac i ffurfio perthynas dda.

Yn ogystal, mae gan blant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ennyn diddordeb y plant. Mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n dda i gefnogi'r dysgu. Mae`r gweithgareddau`n cael eu cynllunio'n dda gyda chydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion, ac mae`r ymarferwyr yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant.

Mae ymddygiad plant yn cael ei reoli'n dda gyda defnydd da o gwestiynu i ddatblygu eu hiaith a`u gallu i feddwl.

Mae llyfrynnau asesu unigol yn cael eu defnyddio i gofnodi datblygiad medrau plant unigol ar draws y cwricwlwm. Mae yna hefyd lyfrynnau sy'n dangos gwaith plant unigol ar draws y chwe maes dysgu fel sy`n cael ei nodi gan gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ffeiliau dysgu unigol yn cael eu darparu ar gyfer rieni ar ddiwedd y flwyddyn sy`n rhoi arwydd da o'r hyn mae`r plant wedi ei gyflawni.

Mae ymarferwyr yn ymwybodol iawn o gyflawniadau a chynnydd y plant ac yn darparu gwaith sydd wedi ei gynllunio fel canlyniad i asesu`r plant. Fodd bynnag, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i nodi datblygiad medrau`r plant ac yna defnyddio`r wybodaeth hon i gynllunio`r cam nesaf yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae`r gweithgareddau dysgu o ddydd i ddydd yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant.

Mae`r gweithgareddau sy`n digwydd o fewn amgylchedd cyfoethog ac amrywiol yr ysgol yn ogystal ag ymweliadau`r ysgol yn datblygu chwilfrydedd plant am y byd maen nhw`n byw ynddo. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo gwerthoedd fel gonestrwydd, chwarae teg a phryder am ei gilydd. Mae`r plant yn deall ac yn diyln rheolau syml.

Mae gan y plant ddealltwriaeth dda o rai o draddodiadau a dathliadau Cymru, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae`r plant yn ailgylchu papur gwastraff a gwastraff bwyd fel rhan o weithgareddau ailgylchu`r ysgol.

Mae gan y lleoliad drefniadau da ar waith ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae polisïau yn eu lle a gweithdrefnau effeithiol ar waith. Mae cymorth ychwanegol ar gael gan staff gefnogi`r awdurdod lleol yn ôl yr angen.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant. Mae'r lleoliad wedi ei leoli o fewn yr ysgol ac yn elwa o`r trefniadau sydd ar waith. Mae'r ffens derfyn yn ddiogel ac ni all unrhyw un ddod i mewn neu adael heb rybudd. Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol ac yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae bechgyn a merched yn cael hawl gyfartal i'r holl weithgareddau. Mae`r plant yn cael eu trin â pharch; mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion unigol. Mae barn a syniadau`r plant yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau ac mae hyn yn sicrhau eu diddordeb a'u cymhelliant.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol. Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal yn dda. Mae'r ystafell yn cael ei defnyddio gan yr ysgol ar wahanol adegau ac mae hyn yn ei wneud yn ofynnol i storio`r offer ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, mae ardaloedd o weithgareddau yn cael eu gosod allan cyn i'r plant gyrraedd. Mae gan y lleoliad adnoddau da ac mae`r adnoddau yn gweddu'n dda i anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn elwa o ddefnyddio ardal allanol yr ysgol ond yn fwy penodol, mae ganddynt ardal ddynodedig eu hun i`w defnyddio. Mae hwn yn faes mawr wedi'i darmacio sy`n addas ar gyfer gemau, defnydd o deganau mawr a gweithgareddau chwarae eraill. Mae hwn yn amgylchedd dysgu da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ddau ymarferydd yn rhannu cyfrifoldebau`r arweinyddiaeth. Maen nhw`n cyfarfod yn reolaidd ar un prynhawn yr wythnos i gynllunio ar gyfer yr wythnos i ddod yn seiliedig ar gynnydd plant. Mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda. Mae`r arweinwyr yn rhannu`r nod cyffredin o ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant. Maen nhw`n cyflawni hyn i raddau helaeth.

Mae`r arweinwyr yn dangos synnwyr clir o ddiben, ymdeimlad o fwynhad yn eu gwaith a balchder i gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu. Maen nhw`n cefnogi ei gilydd, yn derbyn eu cyfrifoldebau yn llawn ac yn canolbwyntio`u sylw ar safonau cyflawniad a lles y plant.

Mae`r arweinwyr yn cael eu gwerthuso'n flynyddol pan fydd anghenion hyfforddi`n cael eu nodi a'u cyfateb i dargedau`r lleoliad ar gyfer gwella. Mae'r arweinwyr yn hunan-feirniadol ac yn chwilio am ffyrdd i wella. Maen nhw`n cael eu cefnogi'n dda gan y pwyllgor rheoli.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu effeithiol yn rhan reolaidd a thrylwyr o fywyd y lleoliad. Mae'r ffocws ar ba mor dda y mae`r plant yn cyflawni, ac ansawdd darpariaeth y lleoliad. At ei gilydd, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae`r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn elwa o gefnogaeth gan staff cymorth yr awdurdod lleol.

Mae`r dystiolaeth yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth uniongyrchol am y lleoliad ynghyd â syniadau a chyngor gan yr Awdurdod Lleol a swyddogion cymorth Mudiad Meithrin.  Mae holiaduron rhieni hefyd yn darparu cefnogaeth a syniadau amgen ar gyfer eu cynnwys.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn bwydo i mewn i'r cynllun datblygu cyfredol.  Mae'r cynllun datblygu yn nodi dyddiadau cwblhau, y person cyfrifol a`r meini prawf llwyddiant.  Mae gweithdrefnau monitro a gwerthuso wedi`u sefydlu'n dda ac ar waith.  Mae hyn yn arfer hynod o effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwneud cyfraniad da ac arwyddocaol i gyflawniad a lles plant.

Mae'r lleoliad yn mwynhau perthynas agos ac effeithiol iawn gydag ysgol gynradd Eglwysbach.  Mae`r plant yn elwa o fod yn yr un adeilad gan fod hyn yn hwyluso eu trosglwyddiad i gam nesaf eu haddysg yn fawr.  Maen nhw`n cael cyfleoedd i ddod yn gyfarwydd â'r staff a gyda phlant sydd wedi trosglwyddo o'u blaen.  Mae hyn yn eu helpu i setlo i mewn yn gyflym i`w haddysg llawn amser.

Mae cysylltiadau gyda rhieni yn gryf hefyd.  Mae rhieni yn cael mynediad at y staff pryd bynnag maen nhw ei eisiau ac mae`r rhieni'n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn.

Mae'r staff hefyd wedi elwa o`r cymorth a'r cyngor sy`n cael eu darparu gan athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a chefnogaeth Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r lleoliad wedi`i staffio ag ymarferwyr sydd yn brofiadol ac sydd wedi`u hyfforddi`n briodol.  Maen nhw`n rhannu eu cyfrifoldebau yn briodol gan wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd.  Mae'r ddwy wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant priodol ac yn rhannu eu syniadau.  Maen nhw`n gwneud defnydd da o gyngor ac awgrymiadau ar gyfer gwella.  Mae'r ddwy yn hunan-ddadansoddol ac yn canolbwyntio ar ddarparu'r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant.

Mae system effeithlon ar gyfer cadw gwariant o dan adolygiad gyda'r arian yn cael ei ddyrannu i flaenoriaethau sydd wedi`u sefydlu.  Mae`r pwyllgor rheoli yn adolygu gwariant.

O ystyried y canlyniadau sy`n cael eu cyflawni gan y plant ac ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |